# Nodi mannau casglu a dosbarthu addas ar gyfer nwyddau

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â nodi mannau casglu a dosbarthu addas ar gyfer nwyddau. Mae’n cynnwys casglu gwybodaeth am y cyfleusterau sy’n ofynnol neu ar gael ar gyfer llwytho neu ddadlwytho, a mynediad at fannau dosbarthu. Mae hefyd yn cynnwys ystyried materion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol.

Mae’r safon hon yn berthnasol i bob gweithredwr ar bob lefel mewn gweithrediadau logisteg. Gallai’r gweithredwyr, er enghraifft, fod yn gweithio ym maes warws a storio, trafnidiaeth, neu anfon cludiant ymlaen.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
nodi a chadarnhau gofynion a chyfyngiadau'r nwyddau i gael eu symud
2.
sefydlu man cyswllt lle gellir cael manylion y man casglu neu ddosbarthu
3. cael gwybodaeth gan gydweithwyr/cwsmeriaid yn ymwneud â gofynion mynediad ffisegol a diogeledd y mannau casglu neu ddosbarthu
4. cael gwybodaeth gan gydweithwyr/cwsmeriaid am iechyd, diogelwch ac unrhyw faterion amgylcheddol yn ymwneud â'r mannau casglu neu ddosbarthu
5. pennu terfynau neu gyfyngiadau, gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth, rheoliadau a'r codau ymarfer perthnasol, a allai effeithio ar fannau casglu neu ddosbarthu ar gyfer nwyddau
6. cadarnhau'r nwyddau a phennu addasrwydd man dosbarthu neu gasglu
7. cael gwybodaeth gan gydweithwyr/cwsmeriaid ar y cyfleusterau llwytho neu ddadlwytho mewn mannau casglu neu ddosbarthu, gan gadw mewn golwg y nwyddau a'r cerbyd penodol sydd yn cael eu defnyddio
8. nodi pryd mae angen cyfarpar arbenigol ar gyfer llwytho a dadlwytho nwyddau
9. cyfathrebu gyda chydweithwyr/cwsmeriaid mewn perthynas â'r nwyddau ac unrhyw broblemau gyda mannau casglu neu ddosbarthu
10. cytuno gyda chydweithwyr/cwsmeriaid ar y camau sy'n ofynnol i ddatrys unrhyw broblemau gyda'r cyfleusterau yn y mannau casglu neu ddosbarthu
11. cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad a'r holl ofynion cyfreithiol, amgylcheddol, diogelwch a gweithredu perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. math a nodweddion y nwyddau i gael eu symud
2. y math o gerbydau sydd yn addas ar gyfer cario nwyddau gwahanol
3. y ddeddfwriaeth, y rheoliadau a’r codau ymarfer perthnasol ar gyfer mynediad diogel i ac o fannau casglu a dosbarthu
4. sut i nodi’r ffynonellau gwybodaeth am iechyd, diogelwch a materion amgylcheddol sy’n ymwneud â’r mannau casglu a dosbarthu
5. y gweithdrefnau recordio a chofnodi a ddefnyddir gan y sefydliad, mewn perthynas â chasglu a dosbarthu nwyddau
6. y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir gan y sefydliad i gyfathrebu gyda chydweithwyr/cwsmeriaid
7. y math o gyfleusterau sy’n ofynnol ar gyfer llwytho a dadlwytho nwyddau a sut i bennu eu haddasrwydd
8. y ffynonellau a’r pwyntiau cyswllt ar gyfer gwybodaeth am y cyfleusterau llwytho a dadlwytho
9. y ddeddfwriaeth, rheoliadau a’r codau ymarfer perthnasol ar gyfer llwytho neu ddadlwytho cerbydau
10. y mathau a’r ffynonellau cyfarpar arbenigol sy’n ofynnol ar gyfer llwytho a dadlwytho nwyddau
11. y gofynion cyfreithiol, amgylcheddol, diogelwch a gweithredu yn ymwneud â mannau casglu a dosbarthu
12. sut i gofnodi gwybodaeth am gasglu a dosbarthu nwyddau yn unol â pholisi a gweithdrefnau eich sefydliad

## Geirfa

Gofynion cyfreithiol, diogelwch a gweithredu: rheoliadau diogelwch, codau ymarfer, cyfyngiadau llwyth, rheoliadau amser gweithio, rheoliadau trafnidiaeth

Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol

Cyfathrebu: llafar, ysgrifenedig, electronig

Cwsmeriaid: mewnol ac allanol

Deddfwriaeth, amgylcheddol, rheoliadau a chodau ymarfer: Deddfau Traffig Ffyrdd, llwytho y tu allan i oriau, defnydd o gyfarpar codi peirianyddol

Nodi mannau casglu a dosbarthu addas ar gyfer nwyddau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | SFL45 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithrediadau a chynnal a chadw trafnidiaeth, Gyrwyr a Gweithredwyr Trafnidiaeth, Warws a Dosbarthu, Rheolaeth Amgylcheddol, Gweithwyr Trafnidiaeth Cyswllt Proffesiynol |
| **Cyfres/Set** | Swyddfa Draffig |
| **Geiriau Allweddol** | casglu; dosbarthu; llwytho; dadlwytho |